**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol**
**Minister for Natural Resources**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our

Dafydd Elis-Thomas AC
Aelod Cynulliad Meirionnydd
7 Bank Place
Porthmadog
Gwynedd
LL49 9AA

29 Hydref 2015

Annwyl Dafydd,

Rwy'n ysgrifennu fel yr addewais yn dilyn eich cwestiwn ychwanegol yn ystod fy sesiwn Cwestiynau Llafar y Cynulliad ar 7 Hydref.

Roeddech yn holi ynghylch y ddeddfwriaeth sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd drwy Senedd y DU, yn dilyn yr ymgynghoriad a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ym mis Mehefin, ac yn benodol pa ymgynghori a fu gyda Gweinidogion Llywodraeth Cymru; pa drafodaethau a fu rhwng swyddogion polisi cyn i'r polisi gael ei gyhoeddi ym mis Mehefin; a'r newidiadau sy'n deillio o'r newid mewn polisi. O'r manylion yn eich ymyrraeth, rwyf wedi cymeryd bod eich cwestiwn yn cyfeirio at y cyhoeddiad a wnaethpwyd gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd ar 18 Mehefin i gau y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy i orsafoedd cynhyrchu ynni gwynt ar y tir o'r 1 Ebrill 2016. Os wyf i wedi camddehongli eich cwestiwn, byddem yn fodlon rhoi rhagor o wybodaeth.

Roeddem wrth gwrs yn ymwybodol o ymrwymiadau yn y maniffesto i ddileu cymorthdaliadau ar gyfer cynhyrchu ynni gwynt, felly o ran hynny roeddem yn aros am gynigion Llywodraeth y DU i'r perwyl hwn. Cefais sgwrs ffôn gychwynnol gydag Amber Rudd, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd ar 9 Mehefin i drafod materion oedd yn gysylltiedig ag ynni. Daeth y cyfeiriad ffurfiol cyntaf at newidiadau arfaethedig mewn llythyr ganddi ar 11 Mehefin, gan bennu'r bwriad i gau y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy i brosiectau cynhyrchu ynni gwynt ar y tir, gan ofyn i Lywodraeth Cymru am ei safbwyntiau erbyn 16 Mehefin.

Gofynnodd y swyddogion am ragor o wybodaeth gan swyddogion yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd, gan gynnal telegynhadledd ar 15 Mehefin, a chefais sgwrs arall gyda'r Ysgrifennydd Gwladol ar 16 Mehefin.

Atebais ar y cyd â Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar 17 Mehefin. Bu inni fynegi ein pryderon ynghylch effaith hyn ar fuddsoddi a swyddi o ran prosiectau sydd eisoes wedi'u cynllunio, neu heb eu hadeiladu eto, yr ansicrwydd oedd yn codi ynghylch datblygiadau posibl yn y dyfodol o ystyried y diffyg eglurder bryd hynny am gynlluniau ar

Bae1 Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Carl.Sargeant@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

gyfer Contractau Gwahaniaeth a Thariff Cyflenwi Trydan, a'r diffyg eglurder ynghylch unrhyw drefniadau am gyfnod gras ar gyfer prosiectau sydd wedi hen ddechrau. Bu inni dynnu sylw at y pryderon o ran effaith y cynigion ar rwymedigaethau newid hinsawdd, ac yn benodol bryder ynghylch y cwestiwn o gymorth ar gyfer datblygiadau llai a chymunedol.

Fel y gwyddoch, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol ar 18 Mehefin y bwriad i gau y Rhwymediaeth Ynni Adnewyddadwy i gynhyrchu ynni gwynt ar y tir o fis Ebrill 2016. Roedd swyddogion yn ymwybodol o'r newid ychwanegol i ddychwelyd datblygiadau ynni gwynt i'r drefn Cynllunio Gwlad a Thref pan oeddent mewn cyfarfod gyda'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd ar y diwrnod y cyhoeddwyd y newid. Mae swyddogion wedi cadw mewn cysylltiad â'u cydweithwyr yn yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd ers hynny, er mai sgwrs un-ochrog yw hon i raddau, ac maent yn monitro datblygiad y ddeddfwriaeth drwy'r Senedd.

Rwy'n parhau i gynrychioli buddiannau Cymru, ac i sicrhau bod cysylltiad cyflawn ac amserol gyda Gweinidogion Cymru pan y gwelir bod effaith ar faterion sydd wedi'u datganoli.

Yn gywir

**Carl Sargeant AC**
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol